NIGHTINGALE HOUSE HOSPICE ANNUAL REPORT 2024

CONTACT US

Nightingale House Hospice,
Chester Road, Wrexham, LL11 2SJ

01978 316800

info@nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse

nightingalehh

DIRECTORS AND TRUSTEE COMMITTEE MEMBERS

Mr Chris Burgoyne
Dr Neil Braid
Mrs Alison Brebner
Mr Robert Cole
Dr Jenny Duguid
Mr Graham Greasley
Mrs Eluned Griffiths
His Honour Philip Hughes
Mrs Joan Lowe
Mr Richard Thomas
Mr Peter Weston

MISSION STATEMENT

To provide support services for individuals (and their families) who are diagnosed with a progressive and/or life-limiting illness and living within our catchment area. Support and care will be delivered, where possible, in the location of their choice and within the resources available to Nightingale House Hospice.

Following an assessment of physical, emotional, social and spiritual needs, services will be delivered by a multi-disciplinary team trained and competent to meet the needs of all patients, including those with complex, specialist needs.

VISION

To provide excellent, personalised and compassionate care for those living with a progressive and/or life-limiting illness in our community and support for their families and loved ones.

VALUES

Values apply within every setting, interaction between staff and volunteers, how we treat patients and families, how we engage with partner organisations, supporters and suppliers. At all times we strive to be **compassionate**, **honest**, **inclusive**, **respectful**, and **proactive**.

OUR CATCHMENT AREA

Our stores are at the heart of our local community and the catalyst to successful fundraising. We have shops in Wrexham, Mold, Buckley, Whitchurch and Oswestry.

Fundraising Groups have become the face of our hospice out in the community, acting as ambassadors for our cause. We are fortunate to be represented in the following areas: Bala, Chirk, Corwen, Hanmer, Leeswood, Llangollen and Mold.



Nightingale House Hospice
Registered Charity Number: 1035600 (Registered in England and Wales)

WELCOME

It was both an honour and a privilege to be appointed Chair of the Board of Trustees in August 2024. As we begin this year's Annual Report, I would like to extend my heartfelt thanks to my predecessor, Eluned Griffiths. Eluned's leadership, dedication, and unwavering enthusiasm over many years were instrumental in guiding the hospice through a number of challenges, and her contribution has been pivotal in bringing us to this significant milestone, our 30th Anniversary in 2025.

One of the most notable achievements of 2024 was the completion of our five year renovation programme. Finalised in January, this £5 million investment has transformed Nightingale House into a state of the art facility, ensuring that we are well equipped to deliver outstanding care for the next generation. The opening of our new Inpatient Unit marked the final phase of this transformation, and I'm delighted to report that, since its opening, we've seen a continued increase in the number of patients and families we are able to support.

Our inpatient services and outpatient services, including wellbeing, rehabilitation and family support now operate in an environment truly fit for purpose, ensuring that we continue to provide the exceptional care our community expects and deserves.

Looking ahead, we are mindful of the financial challenges that remain. In 2025, it will cost approximately £5.6 million to run Nightingale House Hospice, with only circa 20% coming from statutory funding. While we continue to work closely with Hospices Cymru and the Welsh Government to push for a fairer and more sustainable funding model, we remain deeply grateful to the individuals, businesses, and grant funders across our community who enable us to keep delivering our services.

We are also incredibly fortunate to be supported by an extraordinary team of around 450 volunteers who give their time, skills, and energy across every aspect of our work, from patient care and retail to gardening, cafes, and community fundraising. Your continued commitment is truly invaluable.

To our dedicated staff: thank you for the compassion, professionalism, and excellence you bring to every part of our organisation. The feedback we receive from patients and their loved ones is a powerful testament to your efforts. I would also like to extend my sincere appreciation to Steve Parry, who kindly stepped out of retirement to serve as Interim CEO during Lauren Emberton's maternity leave from May to December 2024.

Finally, I would like to thank my fellow Trustees and the Executive Management Team for their continued support, guidance, and shared commitment to strong governance and financial stability as we pursue our strategic goals.

As we move into our 30th Anniversary year, we do so with deep gratitude and a renewed sense of purpose. Thank you to everyone who continues to support Nightingale House, you are at the heart of everything we do, and we would not be here without you.

Chris Burgoyne, Chair of the Board of Trustees

CELEBRATING COMPLETION OF OUR REDEVELOPMENT AND GARDEN APPEAL

Our 2024 Garden Appeal brought the final, vibrant flourish to Nightingale House Hospice's five year redevelopment, transforming our outdoor space into a colourful, accessible and therapeutic sanctuary for patients, families and visitors.

While the major redevelopment of the hospice building was completed in January 2024, the garden remained the final phase of our vision, to create a holistic environment that supports wellbeing inside and out. This year, thanks to the generosity of our community, corporate partners, trusts, and grant funders, we were able to complete this transformation.

Designed with input from clinicians, patients and families, the garden now features a blend of colour, texture and scent, with seasonal planting schemes offering interest and beauty all year round. Thoughtfully designed sensory elements, soft landscaping, and accessible walkways invite everyone to connect with nature, no matter their age or mobility.

A particularly impactful element of the design is the creation of private outdoor areas, directly accessible from each patient room. These give individuals the freedom to step outside, on their own terms, into a peaceful and dignified space where they can enjoy fresh air, birdsong, and time with loved ones in comfort and privacy.

In May, with the garden works complete, we were proud to host an official opening event to celebrate the culmination of the hospice's £5 million redevelopment and to thank those who made it all possible. The event welcomed some of our major donors, corporate partners, charitable trusts and foundations and the Mayor. Guests were invited to join guided tours of the transformed hospice and newly completed gardens, experiencing first hand the profound difference their support has made.

The opening was a day of celebration, gratitude, and connection, a chance to recognise the generosity and community spirit that made the entire redevelopment possible. Thanks to our supporters, Nightingale House has been transformed into a modern, welcoming hospice environment with state of the art facilities that will carry our care into the future. Every new space, inside and out, has been thoughtfully designed to offer comfort, dignity, and peace to all who walk through our doors.

EVERY NUMBER SUPPORTS A REAL LIFE STORY

Our care is provided by a multi-disciplinary team – comprising of consultants, nurses, doctors, social workers, physiotherapists, occupational therapists, chaplains, complementary therapists, volunteers and more – **working together to support individuals and their loved ones.**

Below is a snapshot of the activities our team delivered in 2024.

239 Inpatient Unit admissions

941 Wellbeing Centre attendances

1035 Complementary Therapy appointments

600 Outpatient assessments

174 Acupuncture sessions

244 Spiritual Support sessions

183 Gym sessions attended

149 Patients receiving Hydrotherapy

408 Adult Bereavement Support sessions

325 Child Bereavement Support sessions

PAUL'S JOURNEY:

FINDING STRENGTH, SUPPORT, AND COMMUNITY AT NIGHTINGALE HOUSE

For many, the word hospice can feel overwhelming, often associated only with end of life care. But for Paul Wootton, walking through the doors of Nightingale House Hospice marked the beginning of a new and more hopeful chapter.

Paul began accessing services at Nightingale House over seven years ago. What started as a step into the unknown quickly became a source of stability, comfort, and community.

"I think a lot of people believe that coming to a hospice is the end," Paul said, *"but for me, it was actually the beginning."*

Over the years, Paul has embraced many of the services on offer, from the Wellbeing Programme and complementary therapy to music therapy, respite care, and rehabilitation. Each of these has contributed to his overall sense of wellbeing, helping him manage both the physical challenges of his condition and the emotional toll that can come with it.

"The support I've had here has helped me not just physically, but mentally too," Paul said. *"The staff are amazing, always cheerful, and nothing is ever too much trouble."*

One of the most significant aspects of Paul's experience has been the Wellbeing Programme. *"There's so much variety in what we do, and always plenty of laughter,"* he said. *"It's not just about treatments, it's about living. This place has helped me find purpose and joy, even on the tough days."*

Beyond the structured sessions, Paul has found something equally powerful: friendship. The relationships he's built with fellow patients and staff have become a cherished part of his life. Even outside the hospice, Paul and others from the programme often meet up at Caffi Cwtch, enjoying time together and continuing the camaraderie that began within the hospice walls.

"You never know when you might need a service like this," Paul reflected. *"I'm so grateful for Nightingale House, and I think it's vital that people continue to support it. Without funding, others like me might not have the chance to experience everything it offers."*

Paul's story is a powerful reminder that hospices like Nightingale House are not only about care at the end of life, they are about living well, making connections, and finding strength, hope, and laughter in unexpected places.

> ***"At Nightingale House, our aim is to help people live as well as possible with their diagnosis. We offer a wide range of services that go far beyond traditional perceptions of hospice care, from wellbeing and emotional support to rehabilitation and therapies that promote independence and quality of life. Paul's journey is a wonderful example of how our care is about more than managing symptoms; it's also about living fully, and finding meaning, community, and joy."***
>
> Tracy Thomas
> Director of Clinical and Patient Services

SUPPORTING THE NUMBERS

BEHIND THE STORY

HOSPICE INCOME **£4.386M**

- FUNDRAISING INCOME **27%**
- STATUTORY INCOME **23%**
- LOTTERY **PROFIT 9%**
- GIFTS IN WILLS INCOME **14%**
- RETAIL **PROFIT** (INCLUDING CATERING) **12%**
- GRANTS **15%**



HOSPICE EXPENDITURE **£4.761M**

- PATIENT AND FAMILY SUPPORT **88%**
- FUNDRAISING **12%**

WHAT CAN YOU DO?

VOLUNTEER
We rely on the support of volunteers to provide the best possible care for our patients. Every volunteer within the hospice believes in the work we do and is moved by the impact they make on our patients and their families lives.

HOSPICE LOTTERY
Join our lottery for just £1 a week and make a difference. This year our lottery generated **£404,203** profit that was all used to support patient services, funding the hospice for **31 days**.

These figures are based on the Nightingale House management accounts as of 31/12/24.
Please see companies house for consolidated accounts.

ADRODDIAD BLYNYDDOL
HOSBIS TŶ'R EOS 2024

CYSYLLTU Â NI

Nightingale House Hospice,
Chester Road, Wrexham, LL11 2SJ

01978 316800

info@nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse.co.uk

nightingalehouse

nightingalehh

CYFARWYDDWYR AC AELODAU PWYLLGOR YR YMDDIRIEDOLWYR

Mr Chris Burgoyne
Dr Neil Braid
Mrs Alison Brebner
Mr Robert Cole
Dr Jenny Duguid
Mr Graham Greasley
Mrs Eluned Griffiths
His Honour Philip Hughes
Mrs Joan Lowe
Mr Richard Thomas
Mr Peter Weston

DATGANIAD CENHADAETH

Darparu gwasanaethau cymorth i unigolion (a'u teuluoedd) sy'n cael diagnosis o salwch cynyddol a/neu sy'n cyfyngu bywyd ac sy'n byw yn ein dalgylch. Darperir cefnogaeth a gofal, lle bo modd, yn y lleoliad o'u dewis ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Hosbis Tŷ'r Eos.

Yn dilyn asesiad o anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol, darperir gwasanaethau gan dîm amlddisgyblaethol sydd wedi'i hyfforddi ac sy'n gymwys i ddiwallu anghenion pob claf, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion cymhleth, arbenigol.

GWELEDIGAETH

Darparu gofal rhagorol, wedi'i bersonoli, a thosturiol i'r rhai sy'n byw â salwch cynyddol a/neu sy'n cyfyngu bywyd yn ein cymuned a chefnogaeth i'w teuluoedd a'u hanwyliaid.

GWERTHOEDD

Mae gwerthoedd yn berthnasol ym mhob lleoliad, yn y rhyngweithio rhwng staff a gwirfoddolwyr, y ffordd rydym yn trin cleifion a theuluoedd, a'r ffordd rydym yn ymwneud â sefydliadau partner, cefnogwyr a chyflenwyr. Rydym yn ymdrechu bob amser i fod yn **dosturiol**, **gonest**, **cynhwysol**, parchus, a **rhagweithiol**.

EIN DALGYLCH

Mae ein siopau wrth galon ein cymuned leol ac yn ein helpu i godi arian yn llwyddiannus. Mae gennym siopau yn Wrecsam, yr Wyddgrug, Bwcle, Whitchurch a Chroesoswallt.

Mae Grwpiau Codi Arian wedi dod yn wyneb i'n hosbis allan yn y gymuned, ac yn gweithredu fel llysgenhadon i ni. Rydym yn ffodus i gael ein cynrychioli yn yr ardaloedd a ganlyn: Bala, y Waun, Corwen, Hanmer, Coed-llai, Llangollen a'r Wyddgrug.



Hosbis Tŷ'r Eos.
Rhif Cofrestredig yr Elusen: 1035600 (Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr)

CROESO

Roedd yn fraint ac yn anrhydedd i mi gael fy mhenodi yn Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Awst 2024. Ar ddechrau'r Adroddiad Blynyddol eleni, hoffwn ddiolch o galon i'm rhagflaenydd, Eluned Griffiths. Roedd arweinyddiaeth, ymroddiad, a brwdfrydedd diwyro Eluned dros nifer o flynyddoedd yn hollbwysig wrth lywio'r hosbis drwy nifer o heriau, ac mae ei chyfraniad wedi bod yn allweddol er mwyn dod â ni at y garreg filltir arwyddocaol hon, ein pen-blwydd yn 30 oed yn 2025.

Un o brif gyflawniadau 2024 oedd cwblhau ein rhaglen adnewyddu bum mlynedd. Mae'r buddsoddiad hwn o £5 miliwn o bunnoedd, a gwblhawyd ym mis Ionawr, wedi trawsnewid Tŷ'r Eos yn gyfleuster modern, gan sicrhau bod gennym gyfarpar heb ei ail i ddarparu gofal rhagorol i'r genhedlaeth nesaf. Nodwyd cam olaf y trawsnewidiad hwn drwy agor ein huned newydd i Gleifion Mewnol, ac rwy'n falch o ddweud, ers agor yr uned, ein bod wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer y cleifion a'r teuluoedd rydym yn gallu eu cefnogi.

Mae ein gwasanaethau cleifion mewnol a'n gwasanaethau cleifion allanol, gan gynnwys lles, adsefydlu a chefnogi teuluoedd bellach yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n wirioneddol addas i'w ddiben, gan sicrhau ein bod yn dal i ddarparu'r gofal eithriadol y mae ein cymuned yn ei ddisgwyl ac yn ei haeddu.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn ymwybodol o'r heriau ariannol sy'n parhau. Yn 2025, bydd yn costio tua £5.6 miliwn i redeg Hosbis Tŷ'r Eos. Dim ond rhyw 20% o'r swm hwn sy'n dod o gyllid statudol. Er ein bod yn dal i weithio mewn cysylltiad agos â Hosbisau Cymru a Llywodraeth Cymru i wthio am fodel ariannu tecach a mwy cynaliadwy, rydym yn parhau'n ddiolchgar iawn i'r unigolion, busnesau, a chyllidwyr grantiau ledled ein cymuned sy'n ein galluogi i ddal i ddarparu ein gwasanaethau.

Rydym yn hynod o ffodus o gael ein cefnogi gan dîm eithriadol o tua 450 o wirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser, sgiliau, ac egni ym mhob agwedd ar ein gwaith, o ofal cleifion a manwerthu i arddio, caffis, a chodi arian yn y gymuned. Mae eich ymrwymiad parhaus yn amhrisiadwy.

I'n staff ymroddedig: diolch am y tosturi, proffesiynoldeb, a rhagoriaeth rydych yn ei gynnig i bob rhan o'n sefydliad. Mae'r adborth rydym yn ei gael gan gleifion a'u hanwyliaid yn dystiolaeth gref o'ch ymdrechion. Hoffwn hefyd fynegi fy ngwerthfawrogiad i Steve Parry, a fu mor garedig â chamu o'i ymddeoliad i wasanaethu fel Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn ystod absenoldeb mamolaeth Lauren Emberton o fis Mai tan fis Rhagfyr 2024.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm cyd Ymddiriedolwyr a'r Tîm Rheoli Gweithredol am eu cefnogaeth barhaus, eu harweiniad, a'u hymrwymiad i lywodraethu cryf a sefydlogrwydd ariannol wrth i ni geisio cyflawni ein nodau strategol.

Ar drothwy ein pen-blwydd yn 30 oed, rydym yn teimlo'n ddiolchgar iawn ac yn gweld ymdeimlad newydd o bwrpas. Diolch i bawb sy'n dal i gefnogi Tŷ'r Eos. Rydych yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud, ac ni fyddem yma oni bai amdanoch chi.

C. Burgoyne.

Chris Burgoyne, Chair of the Board of Trustees

DATHLU CWBLHAU EIN GWAITH AILDDATBLYGU AC APÊL YR ARDD

Apêl yr Ardd yn 2024 oedd penllanw'r prosiect pum mlynedd i ailddatblygu Hosbis Tŷ'r Eos, gan drawsnewid ein man awyr agored yn noddfa liwgar, hygyrch a therapiwtig i gleifion, teuluoedd ac ymwelwyr.

Cwblhawyd y gwaith mawr o ailddatblygu adeilad yr hosbis ym mis Ionawr 2024, a'r ardd oedd cam olaf ein gweledigaeth, i greu amgylchedd holistig sy'n cefnogi lles y tu mewn a'r tu allan. Eleni, diolch i haelioni ein cymuned, partneriaid corfforaethol, ymddiriedolaethau, a chyllidwyr grantiau, llwyddasom i gwblhau'r trawsnewidiad hwn.

Mae'r ardd, sydd wedi'i dylunio â mewnbwn gan glinigwyr, cleifion a theuluoedd, bellach yn cynnwys lliwiau, gweadau ac arogleuon amrywiol, ac mae cynlluniau plannu tymhorol yn cynnig diddordeb a harddwch drwy'r flwyddyn gron. Mae elfennau synhwyraidd wedi'u dylunio'n ofalus, tirlunio meddal, a llwybrau hygyrch yn gwahodd pawb i gysylltu â natur, beth bynnag eu hoed neu eu gallu i symud.

Elfen drawiadol iawn o'r dyluniad yw'r ardaloedd awyr agored preifat, y gall pob claf gael mynediad uniongyrchol iddynt o'i ystafell ei hun. Mae'r rhain yn rhoi rhyddid i unigolion fynd allan, ar eu telerau eu hunain, i fan heddychlon, lle gallant fwynhau'r awyr iach gan gadw eu hurddas, clywed cân yr adar, a threulio amser gyda'u hanwyliaid yn gyfforddus ac yn breifat.

Ym mis Mai, ar ôl cwblhau'r gwaith yn yr ardd, roeddem yn falch o gynnal digwyddiad swyddogol i ddathlu cwblhau'r gwaith gwerth £5 miliwn o bunnoedd i ailddatblygu'r hosbis a diolch i bawb sydd wedi gwneud hyn yn bosibl. Croesawyd rhai o'n prif gyfranwyr i'r digwyddiad, ynghyd â phartneriaid corfforaethol, ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol a'r Maer. Gwahoddwyd y gwesteion i ymuno mewn teithiau tywys o amgylch yr hosbis ar ei newydd wedd a'r gerddi newydd, gan weld drostyn eu hunain y gwahaniaeth mae eu cefnogaeth wedi ei wneud.

Roedd y digwyddiad swyddogol yn ddiwrnod i ddathlu, diolch, a chysylltu, ac yn gyfle i gydnabod yr haelioni a'r ysbryd cymunedol a wnaeth yr holl waith ailddatblygu yn bosibl. Diolch i'n cefnogwyr, mae Tŷ'r Eos wedi cael ei drawsnewid yn amgylchedd hosbis modern, croesawus â'r cyfleusterau diweddaraf, a bydd yn caniatáu i ni barhau i ddarparu gofal yn y dyfodol. Mae pob ardal newydd, y tu mewn a'r tu allan, wedi'i dylunio'n ofalus i gynnig cyfforddusrwydd, urddas, a heddwch i bawb sy'n dod drwy ein drysau.

MAE POB RHIF YN CEFNOGI **STORI AM FYWYD GO IAWN**

Mae ein gofal yn cael ei ddarparu gan dîm aml-ddisgyblaeth – sy'n cynnwys ymgynghorwyr, nyrsys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, caplaniaid, therapyddion cyflenwol, gwirfoddolwyr a mwy – **sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi unigolion a'u hanwyliaid.**

Rhoddir ciplun isod o'r gwaith a wnaed gan ein tîm yn 2024.

239 Derbyniadau i'r Uned Cleifion Mewnol

941 Presenoldeb yn y Ganolfan Lesiant

1035 Apwyntiadau Therapïau Cyflenwol

600 Asesiadau Cleifion Allanol

174 Sesiynau aciwbigo

244 Sesiynau Cymorth Ysbrydol

183 Sesiynau yn y gampfa

149 Cleifion yn derbyn Hydrotherapi

408 Sesiynau Cymorth Galar i Oedolion

325 Sesiynau Cymorth Galar i Blant

SIWRNAI PAUL:

CANFOD CRYFDER, CEFNOGAETH, A CHYMUNED YN NHŶ'R EOS

I lawer, mae'r gair hosbis yn gallu swnio'n frawychus, ac yn aml iawn dim ond â gofal diwedd oes y mae'n cael ei gysylltu. Ond i Paul Wootton, roedd cerdded drwy ddrysau Hosbis Tŷ'r Eos yn ddechrau pennod newydd a mwy gobeithiol.

Dechreuodd Paul ddefnyddio gwasanaethau yn Nhŷ'r Eos dros saith mlynedd yn ôl. Yn fuan iawn trodd yr hyn a ddechreuodd fel cam i fyd dieithr iawn yn ffynhonnell sefydlogrwydd, cysur, a chymuned.

"Dw i'n meddwl bod llawer o bobl yn meddwl mai dod i hosbis ydy'r diwedd," meddai Paul, "ond i mi, hwn oedd y dechrau mewn gwirionedd."

Dros y blynyddoedd, mae Paul wedi defnyddio llawer o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, o'r Rhaglen Lesiant a therapi cyflenwol i therapi cerddoriaeth, gofal seibiant, ac adsefydlu. Mae pob un o'r rhain wedi cyfrannu tuag at ei ymdeimlad cyffredinol o lesiant, gan ei helpu i reoli heriau corfforol ei gyflwr a'r baich emosiynol sy'n gallu dod gyda hynny.

"Mae'r gefnogaeth dw i wedi'i chael yma wedi fy helpu i yn gorfforol, a hefyd yn feddyliol," meddai Paul. "Mae'r staff yn anhygoel. Maen nhw'n hapus bob amser, a does dim byd yn ormod o drafferth iddyn nhw."

Un o'r agweddau mwyaf arwyddocaol ar brofiad Paul yw'r Rhaglen Lesiant. "Mae cymaint o amrywiaeth yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a digon o chwerthin bob amser," meddai. "Mae'n ymwneud â thriniaethau, ac mae hefyd yn ymwneud â byw. Mae'r lle yma wedi fy helpu i ddod o hyd i bwrpas a hapusrwydd, hyd yn oed ar y diwrnodau anodd."

Ar wahân i'r sesiynau strwythuredig, mae Paul wedi darganfod rhywbeth sydd yr un mor bwerus: cyfeillgarwch. Mae'r perthnasoedd mae wedi'u ffurfio â chleifion eraill a'r staff wedi bod yn rhan werthfawr o'i fywyd. Hyd yn oed y tu allan i'r hosbis, mae Paul ac eraill o'r rhaglen yn aml yn cyfarfod yn Caffi Cwtch, i fwynhau amser gyda'i gilydd a pharhau â'r cyfeillgarwch a ddechreuodd o fewn muriau'r hosbis.

"Allwch chi byth ddweud pryd y bydd arnoch chi angen gwasanaeth fel hwn," meddai Paul. "Dw i mor ddiolchgar am Dŷ'r Eos, a dw i'n meddwl ei bod hi'n hanfodol bod pobl yn dal i'w gefnogi. Heb gyllid, mae'n bosibl na fydd pobl eraill fel fi yn cael y cyfle i brofi popeth mae'n ei gynnig."

Mae stori Paul yn ein hatgoffa bod hosbisau fel Tŷ'r Eos yn ymwneud â gofal ar ddiwedd oes, a'u bod nhw hefyd yn ymwneud â byw'n dda, gwneud cysylltiadau, a darganfod cryfder, gobaith, a chwerthin mewn lleoedd annisgwyl.

> ***"Ein nod yn Nhŷ'r Eos yw helpu pobl i fyw cystal ag y mae'n bosibl â'u diagnosis. Rydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau sy'n mynd yn llawer pellach na'r darlun traddodiadol o ofal hosbis, o lesiant a chefnogaeth emosiynol i adsefydlu a therapïau sy'n hybu annibyniaeth ac ansawdd bywyd. Mae siwrnai Paul yn enghraifft wych o'r ffordd mae ein gofal yn ymwneud â mwy na dim ond rheoli symptomau; mae hefyd yn ymwneud â byw bywyd llawn, a*** *diargyfwd prtyr, cymunedd, a hapusrwydd.*
>
> Tracy Thomas
> Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol a Chleifion

CEFNOGI'R RHIFAU Y
TU ÔL I'R STORI

HOSPICE INCOME **£4.386M**

- FUNDRAISING INCOME **27%**
- STATUTORY INCOME **23%**
- LOTTERY **PROFIT 9%**
- GIFTS IN WILLS INCOME **14%**
- RETAIL **PROFIT** (INCLUDING CATERING) **12%**
- GRANTS **15%**



HOSPICE EXPENDITURE **£4.761M**

- PATIENT AND FAMILY SUPPORT **88%**
- FUNDRAISING **12%**

BETH ALLWCH CHI WNEUD?

GWIRFODDOLI
Dibynnwn ar gefnogaeth gwirfoddolwyr i ddarparu'r gofal gorau posib i'n cleifion. Mae pob gwirfoddolwr yn yr hosbis yn credu yn y gwaith a wnawn ac yn teimlo'n gryf am yr effaith y mae'n ei gael ar fywydau ein cleifion a'u teuluoedd.

LOTERI'R HOSBIS
Ymunwch â'n loteri am ddim ond £1 yr wythnos i wneud gwahaniaeth. Eleni llwyddodd ein loteri i wneud elw o **£404,203** ac fe ddefnyddiwyd y cwbl i gefnogi gwasanaethau cleifion, gan ariannu'r hosbis am **31 diwrnod.**

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfrifon rheoli Tŷ'r Eos ar 31/12/42.
Am y cyfrifon cyfunol, ewch i wefan Tŷ'r Cwmnïau.